



Gwella diwylliant a chwaraeon yng Nghymru

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl i'n helpu i wneud cynllun newydd



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Gweledigaeth ar gyfer diwylliant a chwaraeon yng Nghymru: galwad am dystiolaeth.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.llyw.cymru/gweledigaeth-ar-gyfer-diwylliant-chwaraeon-yng-nghymru-galwad-am-dystiolaeth-html

E-bost: StrategaethDiwylliantaChwaraeon@llyw.cymru



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. [Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.](#)

Cynnwys

Am ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru 4

6 maes ar gyfer y cynllun newydd..... 9

Creu'r cynllun newydd11

Rhannwch beth rydych chi'n feddwl.....14

Am ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru



Rydyn ni eisiau gwella **diwylliant** yng Nghymru. Mae **diwylliant** yn cynnwys llawer o wahanol rannau o fywyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:



Treftadaeth – Yr hanes, y traddodiadau a'r lleoedd sy'n bwysig i Gymru.



Y Celfyddydau – Gweithgareddau creadigol fel cerddoriaeth, theatr, dawns a chelf.



Chwaraeon – Gweithgareddau sy'n helpu pobl i gadw'n egniol ac yn iach.



Digwyddiadau – Pethau mae pobl yn eu trefnu er mwyn i eraill eu mwynhau, fel yr Eisteddfod a'r gwyliau.



Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd – Lleodd lle mae pobl yn gallu dysgu, darllen a dod o hyd i wybodaeth.



Diwydiannau creadigol – pethau fel ffilm, teledu a gemau.



Yn y llyfryn yma fe fyddwn ni'n defnyddio'r gair diwylliant i siarad am yr holl feysydd yma gyda'i gilydd.



Rydyn ni'n credu fod y pethau yma yn bwysig iawn i Gymru a'i chymunedau.



Yn y gorffennol does dim digon o arian wedi'i wario ar y meysydd yma.



Rydyn ni eisiau newid hyn dros y 10 mlynedd nesaf. Rydyn ni eisiau i Gymru gael ei gweld fel lle sy'n llawn o'r pethau pwysig yma.

Mae diwylliant yn bwysig am sawl rheswm. Er enghraifft:



- Helpu pobl i deimlo'n dda ac yn iach.



- Helpu pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau.




- Helpu pobl i deimlo'n gysylltiedig ag eraill.



- Dod ag arian i Gymru a chefnogi swyddi.



Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael y cyfle i fwynhau diwylliant.



Rydyn ni'n mynd i wneud cynllun o'r enw **Strategaeth Diwylliant a Chwaraeon i Gymru.**



Fe fydd y cynllun yma yn edrych ar beth sy'n digwydd nawr a beth sydd angen ei newid.



Fe fydd yn meddwl gweithio gydag eraill i wneud y newidiadau sydd eu hangen.

6 maes ar gyfer y cynllun newydd



Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar 6 maes sy'n bwysig i ddyfodol Cymru:



1. **Cymru iachach** – Defnyddio diwylliant i wella iechyd a lles pobl.



2. **Cymru gyfoethocach** – Dod ag arian i Gymru a chreu mwy o swyddi.



3. **Cymru Wydn** – Gwneud yn siŵr bod diwylliant a chwaraeon yn gallu parhau a gweithio'n dda.



4. **Cymru Fedrus** – Helpu plant i ddysgu am ddiwylliant, chwaraeon a chymryd rhan ynddo.



5. **Cymru Fwy Cysylltiedig** – Defnyddio diwylliant a chwaraeon i ddod â phobl at ei gilydd.



6. **Cymru ddwyieithog a hyderus** – Defnyddio'r Gymraeg a gwneud yn siŵr bod Cymru'n adnabyddus am beth mae'n ei gynnig.

Creu'r cynllun newydd



Rydyn ni wedi casglu llawer o safbwyntiau am rai meysydd diwylliant yn barod.



Fe fyddwn ni nawr yn cynnwys y diwydiannau creadigol a chwaraeon yn y gwaith yma hefyd.



Mae angen i ni glywed gan bobl sy'n gweithio yn y meysydd yma.



Rydyn ni eisiau dysgu cymaint ag rydyn ni'n gallu cyn gwneud y cynllun.



Fe fydd hyn yn cynnwys ymchwil, profiadau pobl ac enghreifftiau o beth sy'n gweithio'n dda.



Rydyn ni eisiau gwybod beth sydd ar goll yng Nghymru a beth allai fod yn well.



Rydyn ni eisiau clywed gan bobl sydd yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon yn barod.




Mae hyn yn gallu bod o grŵp cymunedol neu sefydliad mwy.



Rydyn ni hefyd eisiau clywed gan bobl a hoffai gymryd rhan.



Fe fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i dyfu diwylliant, y diwydiannau creadigol a chwaraeon yng Nghymru.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad yng Ngwanwyn 2027 wedi ei seilio ar beth rydyn ni'n ei ddysgu.



Fe fydd y cynllun yn dangos beth sydd angen i ni ei wneud dros y 10 mlynedd nesaf.

Rhannwch beth rydych chi'n feddwl



Mae llyfryn cwestiynau ar wahân sy'n mynd gyda'r ddogfen yma.



Mae'r llyfryn cwestiynau yn cynnwys cwestiynau am ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru.



Darllenwch y llyfryn cwestiynau ac atebwch y cwestiynau rydych chi eisiau eu hateb.



Mae'n dweud wrthyddych chi sut a phryd i anfon eich atebion i ni.